TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015-2016

Tabl Cynnwys

Adrannau		Tudalen
	Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru – Carol Cobert	3
	Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr – Andrew Shipsides	5
1.	Swyddogaeth a sgôp y Tribiwnlys	7
2.	Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion	8
3.	Aelodaeth, hyfforddiant ac arfarnu	10
4.	Y Cyngor Llywodraethu	12
5.	Staffio	14
6.	Cyllid	15
7.	Gwaith ar ddatblygiadau'r dyfodol (system gyfrifiadurol ac awdurdodaeth)	16

Datganiadau wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr (fel sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru – Llywodraeth Cymru)

	Datganiad Llywodraethu	19
	Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	21

Atodiadau

A	Llwyth gwaith – cymariaethau 3 blynedd ac amcangyfrifon 2016-17	25
B	Data Clirio Apeliadau 2015/2016	27
C	Dadansoddiad oedran a rhyw yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2016)	29
Ch	Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2015/2016	31
D	Arbedion yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf	33

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Wrth werthuso nifer yr apeliadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'n amlwg y bydd lleihad yn nifer yr apeliadau ardrethu. Fodd bynnag, mae'r llwyth gwaith mewn meysydd eraill, yn bennaf apeliadau prisio'r dreth gyngor ac apeliadau atebolrwydd, wedi bod yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol yn fras. Yn sgîl y lleihad cyffredinol yn nifer y gwrandawiadau nid yw'r aelodau wedi bod yn gweithredu mor aml ag yn y gorffennol. O'r herwydd rydym ni wedi rhoi pwyslais mawr ar hyfforddiant i aelodau a chadeiryddion eleni i'w paratoi ar gyfer y cynnydd y gwyddwn a ddaw i'n rhan mewn blwyddyn neu ddwy.

Ymdriniwyd â'n busnes craidd yn drwyadl ac effeithlon, fel bob amser, sy'n golygu bod nifer y cwynion ac atgyfeiriadau i lysoedd uwch wedi bod yn isel iawn, gyda dim ond tair apêl i'r Uwch Dribiwnlys, dim apeliadau i'r Uchel Lys ar faterion y Dreth Gyngor a dim ond un gŵyn yn unig ynghylch penderfyniad atebolrwydd y dreth gyngor.

Mae ein strwythur pwyllgor wedi parhau i brofi ei fod yn effeithlon yn galluogi'r Cyngor Llywodraethu i gyflawni ei rôl rheolaeth a llunio polisïau. Mae staff y Tribiwnlys yn brofiadol a chymwys wrth gefnogi gwaith y pwyllgorau a chynorthwyo'r Cyngor Llywodraethu, yn ogystal â rhoi cymorth i aelodau mewn gwrandawiadau tribiwnlys. Fodd bynnag, roedd yn somedig nad oedd modd ailbenodi i swydd Swyddog Iaith Gymraeg eleni oherwydd lleihad mewn cyllid. Er ein bod ni'n ffodus fod gennym ni aelodau staff sy'n siaradwyr Cymraeg ac sydd wedi (ac yn parhau) i chwarae rôl amlwg yn bodloni heriau Safonau Iaith Comisiynydd y Gymraeg, nid dyna eu rôl craidd. Roeddem ni wedi gobeithio y byddai cyfieithu dogfennau yn digwydd yn fewnol yn bennaf, ond rydym ni'n parhau mewn sefyllfa o dalu am wasanaethau cyfieithwyr allanol.

Fel yr holl sefydliadau a noddir gan y llywodraeth, mae ein sefydliad wedi wynebu cwtogiad yn ei gyllideb eleni, sy'n golygu bod rhaid i ni fod yn ddarbouds gyda'n gwariant. O gofio y defnyddir dau draean o'r holl wariant ar gyfer costau staffio, mae'n anochel y bydd y gwasanaeth yn ei chael yn anodd ymdopi â thoriadau i'n cyllideb gyffredinol yn y dyfodol.

Bu cyfres o etholiadau i'r Cyngor Llywodraethu yn ystod 2016. Mae'r broses ethol yn feichus ac nid yw'n arbennig o effeithlon ac, mewn ymdrech i wella'r broses ddemocrataidd, mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gyflwyno newidiadau rheoleiddio yn y dyfodol.

Mae'r aelodaeth, sydd oll yn wirfoddolwyr di-dâl, yn parhau i gyflawni rôl broffesiynol iawn mewn gwrandawiadau ac maent yn gost effeithiol iawn o ran gwariant arian cyhoeddus. Diolch i'r holl aelodau na wnaethant ddewis cael eu hailbenodi eleni, a'r rhai a ymddiswyddodd, am y gwasanaeth gwerthfawr a roddwyd ganddynt; ac rwy'n croesawu aelodau newydd a'r rhai sydd newydd gael eu hethol yn gadeiryddion. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Cynrychiolwyr Rhanbarthol a'r Dirprwy Gynrychiolwyr Rhanbarthol sy'n gwasanaethu ar bwyllgorau ac ar y Pwyllgor Llywodraethu. Mae'r angen i ganfod arbedion mewn cyllideb sydd eisoes yn fechan yn golygu bod y Cyngor

Llywodraethu yn wynebu penderfyniadau anodd wrth chwilio am fentrau arbed arian yn ogystal â chynnal gwasanaeth effeithlon i'r cyhoedd.

I gloi, diolchaf i'r Prif Weithredwr, y Clercod Rhanbarthol a holl aelodau a staff y Tribiwnlys sydd wedi cyfrannu ar y cyd at y gwasanaeth effeithiol ac effeithlon a ddarparwyd gan Wasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Diolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwansanaeth.

Carol Cobert
Llywydd – Tribiwnlys Prisio Cymru

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Y prif nodwedd eleni oedd lleihad yn nifer yr apeliadau ardrethu a wrandawyd a'u clirio. Digwyddodd hyn o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y tribiwnlys. Disgrifir yr amgylchiadau hyn yn adran 2 yr adroddiad hwn; ond, yn fyr, maent yn codi o'r angen i lunio rhestri ardrethu newydd ar gyfer 2017, pan fydd trethdalwyr yn derbyn prisiadau newydd ar eu heiddio at ddibenion ardrethu.

Mae llwyth gwaith arall y tribiwnlys wedi bwrw ymlaen yn unol â'r patrwm yn y blynyddoedd diweddar. Yn fras, mae'r apeliadau hyn (materion prisio eiddo ar gyfer y dreth gyngor ac atebolrwydd personol yn bennaf) yn cael eu rhestru a'u clirio ymhen ychydig o fisoedd ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys, yn unol â rhaglen dreigl effeithlon, fel nad yw'r apelwyr yn wynebu oedi sylweddol a diangen.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae mwyafrif helaeth penderfyniadau'r tribiwnlys wedi darparu datrysiad terfynol i'r materion unigol. Dim ond tri achos sydd wedi mynd ymlaen i'r Uwch Dribiwnlys (Y Siambr Tiroedd) – ac mae dau o'r achosion hyn wedi ymwneud ag eiddo mawr, cymhleth (gwaith dur a chyfleuster storio petrol). Mae'r symiau dan sylw yn yr achosion hyn, a chymhlethdod yr asesiadau, yn aml yn ysgogi'r parti sy'n colli i fynd â'r mater i'r lefel nesaf. O ran materion y dreth gyngor, fodd bynnag, ni fu unrhyw apeliadau pellach.

Yn sgîl y lleihad yn nifer yr apeliadau ardrethu eleni mae'r tribiwnlys wedi canolbwyntio ei sylw ar gynnal hyfforddiant ei aelodau, mewn parodrwydd ar gyfer y cynnydd mewn gwrandawiadau a fydd yn digwydd yn anochel unwaith y bo adnoddau yn cael eu rhyddhau o waith llunio rhestr ardrethu 2017. Mae Cyngor Llywodraethu'r tribiwnlys wedi bod yn pwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant i holl aelodau gwirfoddol y tribiwnlys yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae 2015-16 wedi gweld gweithredu polisi'r Cyngor o wahardd aelodau rhag eistedd mewn gwrandawiad os nad ydynt yn cwblhau'r hyfforddiant gofynnol yn llawn.

Er bod y sefydliad eisoes wedi'i sefydlu mewn modd cost effeithiol iawn (trwy ddefnyddio aelodaeth wirfoddol di-dâl), mae'r tribiwnlys wedi bod yn ymwybodol o'r angen i ganfod arbedion costau yn ystod y cyfnod hwn o lymder ariannol. Dengys y manylion ariannol fod y tribiwnlys wedi bod yn llwyddiannus yn gwneud hyn – yn cynnwys costau gweithredol ac eithrio staff wedi eu cwtogi bron i 25% o'i gymharu â dwy flynedd yn ôl. Mae'r tribiwnlys yn parhau i chwilio am fentrau arbed arian, er bod y cyfleoedd am arbedion mewn rhai meysydd wedi lleihau yn sylweddol erbyn hyn. Mae'r tribiwnlys bob amser yn ystyried ei ddyletswydd o ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel i bobl Cymru ar gost sy'n wirioneddol economaidd. Credaf fod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu hyn.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr – Tribiwnlys Prisio Cymru

1 Swyddogaeth a sgôp y Trbiwnlys

1.1 Nid yw swyddogaeth a sgôp y tribiwnlys wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n parhau yn wasanaeth am ddim y gall trethdalwyr y dreth gyngor a'r rhai sy'n talu ardrethi busnes gyfeirio unrhyw anghydfod am agweddau o'u hatebolrwydd ato. Yn bennaf yr agweddau hyn yw:

- Prisiad yr eiddo a ddefnyddir i gyfrifo'r atebolrwydd ardrethi neu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw unigolyn yn atebol i dalu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw'r atebolrwydd dreth gyngor a gyfrifwyd yn gywir, gan ystyried y gwahanol ddisgowntiau, eithriadau, lleihad a phremiwmau sy'n berthnasol dan amgylchiadau penodol.

Cyn dod â mater i sylw'r tribiwnlys mae'n rhaid i'r achwynydd fod wedi ceisio datrys y mater gyda'r corff a wnaeth y penderfyniad dechreuol yn gyntaf. Yn achos prisiad eiddo, y corff hwnnw yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio (sy'n asiantaeth weithredu Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi). Ac o ran materion atebolrwydd y dreth gyngor, y corff yw'r awdurdod llywodraeth leol a gyflwynodd y bil treth gyngor (a adnabyddir fel yr awdurdod bilio).

1.2 Ceir mathau eraill o apêl a gyfeirir at y tribiwnlys yn achlysurol, yn ymwneud â:

- Hysbysiadau cwblhau a gyflwynwyd gan awdurdodau bilio gyda'r nod o sefydlu dyddiad y penderfynir bod eiddo yn gyflawn ar gyfer dibenion ardrethu a'r dreth gyngor.
- Cyflwyno cosbau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar unigolion y penderfynodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio eu bod wedi methu â darparu gwybodaeth y mae'n ofynnol iddynt ei rhoi yn gyfreithiol at ddibenion prisio eiddo.
- Asesiad ardrethi draeniad a wneir gan fwrdd draenio lleol.

1.3 Mae gan benderfyniadau'r tribiwnlys yn yr holl faterion hyn rym cyfreithiol. Gall y tribiwnlys adolygu rhai o'i benderfyniadau ardrethu a'r dreth gyngor os yw parti yn gwneud cais, dan amgylchiadau penodol cyfyngedig. Fel arall, caiff partïon anfodlon herio'r penderfyniadau yn yr uwch lysoedd. Gall prisio ar gyfer materion ardrethu gael ei ystyried yn y Tribiwnlys Haen Uwch (Siambr Tiroedd) i ddechrau, a gall materion y dreth gyngor gael eu hysytyried yn yr Uchel Lys i ddechrau (ar bwynt yn ymwneud â'r gyfraith yn unig). Ni ellir herio prisio ar gyfer materion y dreth gyngor y tu hwnt i benderfyniad y tribiwnlys; mae penderfyniad y tribiwnlys yn derfynol yn yr achosion hynny.

2 Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion

Llwyth gwaith

2.1 Mae llwyth gwaith y tribiwnlys eleni wedi ei leihau'n sylweddol o ganlyniad i gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru ac Asianaeth y Swyddfa Brisio i gyfyngu nifer yr apeliadau prisio ardrethu i'r rhai y byddai Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn bresennol ynddynt. Pennwyd y nifer cytunedig o achosion i'w clirio ar 1,500 o achosion. Mae hyn yn cymharu ag ychydig dros 6,000 a gafodd eu clirio yn y flwyddyn flaenorol. Gwnaed y cytundeb hwn er mwyn caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ddefnyddio mwyafrif ei staff a'i adnoddau i baratoi'r rhestri ardrethu newydd a fyddai'n dod yn weithredol yn 2017. Yn anffodus, o safbwynt y tribiwnlys roedd y cytundeb yn cyfyngu ar nifer yr achosion y gellid eu rhestru, gan na fyddai gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yr adnoddau ar gael i ymdrin â'r niferoedd yn agos at lefel y llynedd a'r blynyddoedd blaenorol. Gallai'r tribiwnlys fod wedi parhau i restru ar yr un gyfradd â'r flwyddyn flaenorol a byddai ganddo'r adnoddau ar gael i ymdrin â'r gwarandawiadau'n deillio o hynny; fodd bynnag, nid oedd unrhyw ragolygon go iawn o glirio'r achosion. O'r herwydd lleihaodd y tribiwnlys nifer y tribiwnlysoedd ardrethu a drefnwyd yn ystod y flwyddyn fwy na 75%.

2.2 Canlyniad y lleihad sylweddol hwn mewn rhestru a gwrandawiadau oedd na fu'n ofynnol i rai aelodau'r tribiwnlys eistedd mewn gwrandawiad o gwbl eleni, ac mae'r holl aelodau wedi bod mewn gwrandawiadau yn sylweddol llai aml nag sy'n ddymunol i gynnal lefel dda o brofiad parhaus. Gwnaeth hyn effeithio ar weithredu cynllun arfarnu aelodaeth y tribiwnlys hefyd, gan y bu llai o gyfleoedd i arfarnu aelodau. Canlyniad arall yw bod nifer yr apeliadau ardrethu sy'n aros i'w rhestru wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Dechreuodd y tribiwnlys y flwyddyn gydag ychydig dros 2,500 o achosion ardrethu yn aros i gael eu rhestru; a diweddodd y flwyddyn gydag oddeutu 9,500 o achosion o'r fath. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r tribiwnlys wedi bod yn lleihau nifer yr achosion ardrethu sy'n weddill yn gyson ar ddechrau bob blwyddyn. Ond gwnaeth eleni roi stop ar y tueddiad hwnnw.

2.3 Yn anffodus mae'r cynnydd yn yr achosion ardrethu sy'n weddill ar ddiwedd y cyfnod wedi ei waethygu gan fwy na'r nifer arferol o gofrestriadau newydd. Yn ystod blynyddoedd diweddar mae'r tribiwnlys wedi derbyn rhwng 4,000 a 5,000 o achosion ardrethu newydd, gyda pheth cysondeb. Eleni derbyniodd 8,700 o achosion. Achoswyd hyn gan newid i'r rheoliadau, yn berthnasol o 1 Ebrill ac yn Lloegr yn unig, lle'r oedd trethdalwyr yn colli'r hawl i gael unrhyw enillion mewn apêl llwyddiannus wedi'u hôl-ddyddio i ddechrau'r rhestr ardrethu bresennol, os oedd amgylchiadau'r eiddo yr un fath ar adeg yr apêl ag ar ddechrau'r rhestr. Gwnaeth y newid yn y rheoliad ysgogi syrfeiwyr ardrethu proffesiynol i gyflwyno nifer fawr o gynigion ardrethu amddiffynnol, ar ran eu cleientiaid, i Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ystod tri mis cyntaf 2015. Gwnaethant hyn yng Nghymru a Lloegr, er gwaetha'r ffaith nad oedd y newid yn berthnasol yng Nghymru. Cafodd yr achosion a gyflwynwyd yng Nghymru eu trosglwyddo i'r tribiwnlys wedi hynny gan Asianaeth y Swyddfa Brisio yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Yn unol â'r drefn wedi'i hen ymsefydlu o ran gwaith apêl ardrethu, bydd rhaid i bron y cyfan o'r achosion hyn cael eu

rhestru gan y tribiwnlys er mwyn hwyluso eu clirio. Golyga'r mewnlifiad hwn fod gan y tribiwnlys fwy o apeliadau yn weddill yn awr nag a fu ers sawl blwyddyn.

2.4 Mae'r tribiwnlys yn awyddus i ymdrin â'r cynnydd diweddar hwn yn nifer yr achosion sy'n weddill, ond mae Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi cytuno ar gadw lefelau'n isel ar gyfer y flwyddyn i ddod – gyda tharged o 3,000 o achosion i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Cytunwyd ar y targed hwn heb ymgynghori â'r tribiwnlys, ac mae'r tribiwnlys yn sylweddoli y gwnaed hyn yng nghyd-destun trafod cyllid Llywodraeth Cymru i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (ac nid oes gan y tribiwnlys unrhyw hawl yn y cyd-destun hwn); serch hynny, mae'r targed yn effeithio'n uniongyrchol ar weithrediadau'r tribiwnlys. Onibai bod derbyniadau apeliadau newydd yn llai na 3,000 yn y flwyddyn i ddod (ac nid ydynt wedi bod yn is na'r lefel yma yn ystod unrhyw flwyddyn y rhestr ardrethu gyfredol – h.y. ers 2010), mae'n anochel y bydd nifer yr achosion sy'n weddill yn cynyddu eto.

2.5 Mae Atodiad A yn rhoi manylion crynodeb weithredol o dderbyniadau a chliriadau ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf. Mae hefyd yn rhoi amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn i ddod, lle rydym ni'n rhagweld mewnbwn ychydig yn uwch na'r arferol o 6,000 o achosion ardrethu. Yn draddodiadol ceir cynnydd yn y derbyniadau yn ystod blwyddyn olaf rhestr ardrethu, a'r flwyddyn i ddod yw blwyddyn olaf rhestr ardrethu 2010.

2.6 Mae Atodiad B yn nodi manylion niferoedd yr apeliadau ym mlwyddyn yr adroddiad ar gyfer yr holl gategorïau apêl. Mae niferoedd yr apeliadau ar gyfer yr holl gategorïau, ac eithrio apeliadau ardrethu (a drafodwyd uchod), yn unol â'r norm sefydledig ar gyfer trosiant blynyddol.

Apeliadau pellach

2.7 Cofrestrwyd tair apêl â'r Uwch Dribiwnlwys (y Siambr Tiroedd) eleni yn erbyn penderfyniadau ardrethu'r tribiwnlys.

- Gwaith dur Tremorfa, Caerdydd
- Cyfleuster storio Mass Petro, Aberdaugleddau
- Eiddo hunan arlwyo yn Llanbedr Pont Steffan

Nid yw'r Uwch Dribiwnlys wedi penderfynu ar yr achosion hyn eto.

Ni chafwyd unrhyw apeliadau i'r Uchel Lys am faterion y dreth gyngor.

Cwynion

2.8 Derbyniodd y tribiwnlys un gŵyn am benderfyniadau atebolrwydd y dreth gyngor. Cyflwynwyd y gŵyn oedd yr apelydd yn yr achos, a oedd yn teimlo bod y penderfyniad yn anghywir. Nid oedd modd ymchwilio i'r penderfyniad ei hun fel cwyn weinyddol; ac felly cynghorwyd yr apelydd am ei hawliau i apelio ymhellach.

3 Aelodaeth, hyfforddiant ac arfarnu

Aelodaeth

3.1 Lleihaodd yr aelodaeth gyffredinol eto eleni, yn bennaf gan na wnaeth rhai aelodau geisio cael eu hailbenodi yn dilyn diwedd cyfnod eu penodiad. Roedd cyfanswm y nifer yn 156 ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad, o'i gymharu ag 173 y flwyddyn flaenorol.

3.2 Mae'r proffil oedran yn parhau i gynyddu, wrth i aelodau aros yn y swydd am gyfnod o chwe mlynedd, ac nid ydym yn recriwtio aelodau newydd gan fod y galw o ran y llwyth gwaith (fel a ddisgrifiwyd yn adran 2) yn annigonol ar hyn o bryd i ddarparu lefel rhesymol o brofiad eistedd mewn gwrandawiadau i'r garfan aelodau presennol. Mae 48% o'r aelodau yn 70 oed neu'n hŷn, o'i gymharu â 47% y llynedd. Nid oes oedran ymddeol gorfodol. Cyflwynir dadansoddiad o oedran a rhyw'r aelodaeth yn Atodiad C. Mae tua thri chwarter yr aelodaeth yn ddynion.

Hyfforddiant

3.3 Gwelwyd cyflwyno polisi hyfforddiant newydd i'r aelodaeth yn y flwyddyn hon yn ei gwneud yn ofynnol mynychu digwyddiadau hyfforddiant. Os nad oedd aelodau yn bresennol yn y digwyddiadau gofynnol yn y rhaglen eleni byddent yn cael eu gwahardd rhag eistedd mewn gwrandawiadau y flwyddyn ddilynol onibai eu bod wedi mynychu'r digwyddiad hyfforddiant gofynnol yn y rhaglen newydd – neu fod ganddynt reswm dilys am beidio â bod yn bresennol ac wedi gwneud cais am a chael goddefeb i barhau i eistedd mewn gwrandawiadau gan y llywydd.

3.4 Parhaodd y presenoldeb ar oddeutu 75% yn gyffredinol (76% yn 2014-15 a 74% eleni). Gwnaeth 18 o aelodau wneud cais am a derbyn goddefeb gan y llywydd. Cyflwynwyd gwaharddiad dros dro ar 13 o aelodau. Gwnaeth gweddill y rhai nad oeddynt wedi mynychu'r hyfforddiant un ai ymddiswyddo neu beidio ag adnewyddu eu haelodaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

3.5 Mae'r Cyngor Llywodraethu wedi penderfynu cryfhau'r polisi hyfforddiant ymhellach trwy gael gwared ar y broses oddefeb yn weithredol o'r flwyddyn nesaf. Yn y dyfodol bydd aelodau'n derbyn gwaharddiad dros dro rhag eistedd mewn gwrandawiad yn awtomatig nes eu bod yn mynychu'r digwyddiad hyfforddiant nesaf, beth bynnag fo'r rheswm am fethu â bod yn bresennol yn yr hyfforddiant gofynnol.

3.6 Gan fod y llwyth gwaith apeliadau ardrethu wedi'i leihau yn sylweddol eleni, gwnaeth y tribiwnlys ategu'r rhaglen hyfforddiant gofynnol â nifer o sesiynau hyfforddiant gwirfoddol, rhanbarthol, er mwyn cadw cysylltiad â'r aelodau a chynnal lefelau sgiliau.

Arfarnu

3.7 Mae arfarnu aelodau wedi ei lesteirio eleni oherwydd y lleihad yn y llwyth gwaith, a'r lleihad dilynol yn nifer y gwrandawiadau. Mae'r system arfarnu wedi'i seilio ar arsylwi aelodau yn gweithredu yn ystod gwrandawiadau tribiwnlys lle bo herio rhwng dwy ochr. Yn sgîl nifer isel y gwrandawiadau tribiwnlys ac achosion wedi'i herio bu'n anodd cael yr holl elfennau sy'n ofynnol yn eu lle er mwyn i rai o'r arfarniadau oedd i'w cynnal gael eu cyflawni. Bydd rhaid i'r tribiwnlys gynnal y rhain, ac mae'n bwriadu cyflymu'r rhaglen pan fo cynnydd yn y llwyth gwaith.

4 Y Cyngor Llywodraethu

4.1 Mae datganiad llywodraethu'r tribiwnlys ar dudalen XX yr adroddiad hwn.

4.2 Ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn roedd y tribiwnlys ynghanol cyfres o etholiadau ar gyfer yr holl seddi yn y Cyngor Llywodraethu, yn cynnwys y llywydd. Mae hyn yn digwydd bob dwy flynedd – fel sy'n ofynnol gan reoliadau llywodraethu statudol y tribiwnlys. Cynhaliwyd etholiadau ar gyfer Cynrychiolydd Rhanbarthol y Gogledd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r etholiadau ar gyfer Cynrychiolwyr Rhanbarthol eraill a llywydd y tribiwnlys i'w cynnal yn fuan yn 2016-17.

4.3 Golyga'r modd y mae'r broses ethol a ragnodwyd yn gweithio mae'r cyfnodau penodi wedi mynd yn gynyddol wasgarog. Felly ni fydd y sefyllfa derfynol wedi'i phenderfynu tan fis Gorffennaf 2016. Mae'r broses bresennol yn hirfaith ac aneffeithiol, sy'n arwain at orfod cysylltu ag aelodau sawl gwaith dros gyfnod estynedig. Mae'n bosibl rhesymoli'r broses, ac mae'r Cyngor Llywodraethu wedi cyflwyno argymhellion i adran noddi'r tribiwnlys ar gyfer gwella'r broses. Ymddengys bod y rhain wedi cael derbyniad da, ac mae'r tribiwnlys yn edrych ymlaen at eu trafod ymhellach gyda'r nod o weithredu mwy o newidiadau rheoleiddio yn y dyfodol agos.

4.4 Yn yr etholiad yn y Gogledd penderfynodd Mr Michael McEvoy roi'r gorau i rôl y Cynrychiolydd Rhanbarthol, swydd y bu ynddi ers sefydlu Tribiwnlys Prisio Cymru. Ei olynydd yw Mr Rhys Prytherch, a fu'n Ddirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol, ac aeth y rôl Dirprwy Gynrychiolydd i Mr Ivor Norbury.

4.5 Aelodau'r Cyngor Llywodraethu ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad oedd:

Miss Carol Cobert	Llywydd
Mr Rhys Prytherch	Cynrychiolydd Rhanbarthol – Gogledd
Mr Neil Todd	Cynrychiolydd Rhanbarthol – Dwyrain
Mr Anthony Clatworthy	Cynrychiolydd Rhanbarthol – De
Mr Rheinallt Evans	Cynrychiolydd Rhanbarthol – Gorllewin
Mr Bob Parry	Penodai Llywodraeth Cymru

4.6 Y Dirprwy Gynrychiolwyr Rhanbarthol oedd:

Mr Ivor Norbury	Gogledd
Mr Keith Mock	Dwyrain
Mrs Bernese Martin	De
Mr David Oliver Evans	Gorllewin

4.7 Dangosir presenoldeb ym mhedwar cyfarfod y Cyngor Llywodraethu yn ystod y flwyddyn isod:

24 Mehefin 2015, 23 Medi 2015, 16 Rhagfyr 2015, 16 Mawrth 2016

Aelod	**Presenoldeb**	**Nodiadau**
CA Cobert	4	
CN Todd	4	
HM McEvoy	3	Rhoddodd y gorau i fod yn Gynrychiolydd Rhanbarthol cyn y pedwerydd cyfarfod
AHN Clatworthy	3	Methu bod yn bresennol yng nghyfarfod Mehefin
JR Evans	4	
RG Parry	3	Methu bod yn bresennol yng nghyfarfod Mawrth
KC Mock	4	
DR Prytherch	3	Methu bod yn bresennol yng nghyfarfod Mawrth
BC Martin	4	Gweithredu fel dirprwy i Mr Clatworthy ym Mehefin
DO Evans	4	
GI Norbury	1	Cyfarfod Mawrth yn unig – newydd ei benodi fel Dirprwy Gynrychiolydd. Gweithredu fel dirprwy i Mr Prytherch

5 Staffio

5.1 Lleihaodd y lefel staffio cyffredinol yn y flwyddyn o 20.75 yn cyfateb i amser llawn i 19.8. Digwyddodd hyn oherwydd ymddeoliad swyddog cymorth gweinyddol a lleihau oriau clerc rhanbarthol.

5.2 Bwriad y tribiwnlys oedd defnyddio'r oriau a ryddhawyd i greu swydd Swyddog Iaith Gymraeg rhan amser, i fynd i'r afael â heriau cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar draws Cymru. Cynhaliwyd proses recriwtio yn ystod yr haf a phenodwyd swyddog ym mis Medi. Yn anffodus, ymddiswyddodd y swyddog ym mis Ionawr. Ni fwriedir penodi i'r swydd eto oherwydd bod y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cwtogi a bod angen dod o hyd i arbedion sylweddol. Mae'n ofid i'r tribiwnlys na all gryfhau ei alluoedd yn y Gymraeg yn y modd yma. Nid oes adnodd Cymraeg penodol, mewnol; ac mae'n ddibynnol ar wasanaethau cyfieithwyr allanol ac ewyllys dda y siaradwyr Cymraeg rhugl a gyflogir gan y tribiwnlys. Mae'r cwtogiadau staff yn y tribiwnlys yn ystod y flwyddyn wedi ymwneud ag aelodau staff sy'n siarad Cymraeg.

5.3 Mae'r tribiwnlys yn cyflogi pump siaradwr Cymraeg rhugl (cyfateb i 4.8 amser llawn) ar hyn o bryd. Mae ystod o hyfedrusrwydd yn y Gymraeg ymhlith gweddill y staff – o ymadroddion sylfaenol i sgwrs gymharol hir. Mae chwe aelod o staff yn astudio'n rheolaidd ar hyn o bryd, gyda chefnogaeth y tribiwnlys.

5.4 Oedran cyfartalog y staff yw 46 oed; a'r hyd gwasanaeth cyfartalog yw bron i 17 mlynedd.

5.5 Nifer cyfartalog y dyddiau absenoldeb salwch fesul pob aelod o staff eleni oedd 4.47.

6. Cyllid

6.1 Roedd y cyllid a ddyrannwyd i'r tribiwnlys eleni yn £1.222 miliwn – o'i gymharu â £1.310 miliwn y llynedd (cwtogiad o 6.7%). Gwnaeth y gwariant arwain at orwariant bach o bron i £28,000 (2.3% yn uwch na'r cyllid a ddyrannwyd). Cafodd y gorwariant hwn ei amsugno gan adran noddi'r tribiwnlys. Nodwyd y posibilrwydd o orwario gynted ag y derbyniodd y tribiwnlys hysbysiad am ei gyllid, gan nad oedd y swm a ddyrannwyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhwydwaith system apêl y tribiwnlys. Cynghorodd y tribiwnlys y tîm adran noddi yn unol â hynny ar y pryd.

6.2 Cododd y sefyllfa oherwydd bod yr adran wedi tynnu elfen cost y rhwydwaith wrth benderfynu'n derfynol ar gyllid y flwyddyn flaenorol (2014-15) gan fod y gost ar gyfer 2014-15 wedi'i dalu ymlaen llaw ar ddiwedd 2013-14. Yn anffodus ni chafodd ei gynnwys yng nghyfrifiadau cyllido'r adran ar gyfer eleni (2015-16), cyn cyflwyno'r toriad o 6.7 y cant.

6.3 Roedd yn hysbys fod costau'r rhwydwaith am flwyddyn gyfan gyda'r darparydd bryd hynny yn £56,000. Fodd bynnag, cynhaliwyd proses dendro, dan ofal chwaer dribiwnlys y tribiwnlys yn Lloegr (a'i bartner Technegol Gwybodaeth) gyda'r nod o leihau y costau rhwydwaith ar y cyd yn sylweddol hanner ffordd drwy'r flwyddyn, ar ddiwedd y cytundeb tair blynedd a oedd yn bodoli. Yn y diwedd gwariodd y tribiwnlys £35,800 ar gostau rhwydwaith (£27,400 am ddarpariaeth chwe mis gan y cyn ddarparydd, a £8,400 am ddarpariaeth chwe mis gan y darparydd newydd).

6.4 Dangosir manylion gwariant y tribiwnlys 2015-16 yn Atodiad Ch.

6.5 Dangosir cymhariaeth o wariant y flwyddyn hon gyda'r gwariant yn y ddwy flynedd flaenorol yn Atodiad D. Mae'r gwariant cyffredinol wedi lleihau 8%, er gwaethaf cynnydd mewn costau cyflogau a phensiynau (wedi cynyddu 3.4% rhyngddynt). Mae tua hanner staff y tribiwnlys yn parhau i fod ar raddau cynyddrannau blynyddol a/neu ddyfarniad ar sail ennill cymwysterau yn ôl eu cytundeb gwaith. Mae hyn yn gyfrifol am y cynnydd uwch na'r hyn sy'n digwydd yn unig o'r dyfarniad cyflog cenedlaethol o 1% ym mhob un o'r ddwy flynedd ddiwethaf.

6.6 Yng nghyd-destun costau staffio sefydlog yn fras (yn cynyddu ychydig) mae'n rhaid i'r tribiwnlys gyflawni arbedion o 3% mewn costau nad ydynt yn gostau staffio er mwyn cyflawni arbediad o 1% yn y gwariant cyffredinol. Felly mae'r arbedion o 8% yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn cynrychioli arbedion o fwy na 24% yn y gwariant ac eithrio ar staffio.

7. Gwaith ar ddatblygiadau'r dyfodol (system gyfrifiadurol ac awdurdodaeth)

System gyfrifiadurol

7.1 Mae'r tribiwnlys wedi'i gloi mewn trefniant partneriaeth hirhoedlog o ran Technoleg Gwybodaeth gyda'i chwaer dribiwnlys yn Lloegr. Mae tribiwnlysoedd Cymru a Lloegr yn defnyddio'r un meddalwedd rheoli apeliadau, yr un canolfannau data a'r un rhwydwaith ardal eang. Daeth y sefyllfa hon i fodolaeth gan fod y systemau apeliadau ardrethu a'r dreth gyngor wedi bod yn unfath (neu bron yn unfath) ar draws y ffin Cymru-Lloegr. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau cynyddol yn digwydd yn awr. Mae hyn, ynghyd â gofynion cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg, yn golygu y bydd gwahanu o'r trefniadau ar y cyd yn debygol iawn, os nad yn anochel, yn y tymor canolig. Fel y crybwyllwyd yn adran 2, mae'r llwyth gwaith gyfredol (yn gysylltiedig â rhestr ardrethu 2010) yn cynyddu; ac mae hyn yn debygol o gael ei brosesu o dan y trefniadau presennol. Fodd bynnag, bydd angen i waith newydd (yn gysylltiedig â rhestr ardrethu 2017) gael ei phrosesu dan drefniadau gwahanol, gan fod Lloegr yn symud at hawliau herio ac apelio newydd o ran y rhestr newydd, ac mae tribiwnlys Lloegr yn awyddus i ddatblygu datrysiad Technoleg Gwybodaeth newydd ar gyfer hyn. Gallai Cymru weld ei newidiadau ei hun (gwahanol o bosibl), o ran yr hawliau i apelio. Yn unol â hynny nawr yw'r adeg i ddatblygu system gyfrifiadurol prosesu apeliadau newydd sy'n cyfateb yn llawn i anghenion Cymru.

7.2 Felly ym mis Rhagfyr cyflogwyd contractwr datblygu TG annibynnol, wedi'i leoli yng Nghymru, i ddechrau datblygu datrysiad wedi'i deilwra ar gyfer Cymru. Mae'r gwaith wedi datblygu'n dda. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch y diwygiadau i'r hawliau herio ac apelio yng Nghymru wedi amharu ar ddatblygu'r system 'pen blaen'. Unwaith y bo'r materion hyn wedi'u datrys ar lefel polisi, bydd y tribiwnlys mewn lle da i symud y datblygiad yn ei flaen.

Awdurdodaeth

7.3 Ym mis Awst cyfarfu'r llywydd a'r Prif Weithredwr â swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn gweithio ar ddatblygiad a gweithredu Awdurdod Refeniw Cymru, a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am y trethi newydd eu datganoledig yn deillio o dirlenwi a threth trafodiadau tir (ardoll stamp). Daeth i'r amlwg nad oedd y tribiwnlys prisio wedi'i ystyried fel arena posibl ar gyfer datrys unrhyw apeliadau yn deillio o'r trethi datganoledig hyn, er gwaethaf rôl craidd y tribiwnlys yn datrys materion atebolrwydd trethi. Barn y llywydd a'r Prif Weithredwr oedd y gallai'r tribiwnlys fod wedi darparu datrysiad parod yng Nghymru ar gyfer y nifer isel o apeliadau a ragwelwyd a fyddai'n deillio o'r trethi datganoledig hyn; ac y gellid esblygu awdurdodaeth y tribiwnlys dros amser i fod yn dribiwnlys trethiant cyffredinol ar gyfer yr holl drethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar yr adeg hynny roeddynt eisoes wedi dod i'r casgliad y byddai apeliadau'n mynd i Dribiwnlys Haen Gyntaf y Deyrnas Unedig, sy'n gweithredu ar draws ffiniau, am y cyfnod interim o leiaf.

Datganiadau

(fel sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru – Llywodraeth Cymru)

Datganiad Llywodraethu

Llywodraethir Tribiwnlys Prisio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys:

- Llywydd y Tribiwnlys
- Pedwar Cynrychiolydd Rhanbarthol y Tribiwnlys
- ac, os y'i penodir, unigolyn a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)].

Mae'n rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Rhanbarthol fod yn aelodau'r Tribiwnlys ac fe'u hetholir gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o ddwy flynedd. Gallant sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd y cyfnod yn y swydd. Etholir Dirprwy Gynrychiolwyr Rhanbarthol hefyd a gallant weithredu fel aelod o'r Cyngor Llywodraethu yn absenoldeb Cynrychiolydd Rhanbarthol eu hardal.

Nodir manylion cydgyfrifoldebau'r Cyngor Llywodraethu, a chyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Rhanbarthol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, a lofnodir dan gymeradwaeth Ysgrifennydd Cyllid a Llywodraeth Leol y Cabinet gan swyddog Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr y Tribiwnlys. Mae Prif Weithredwr y Tribiwnlys yn llofnodi ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys yn cynnal ei swyddogaethau mewn modd sy'n gyson ag Egwyddorion Canolbwyntio ar Ddinasyddion Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).



Andrew Shipsides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a'r gofynion rheolaeth ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a dogfennau ariannol Llywodraeth a Chynulliad Cymru a memoranda y cyfeirir atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig yn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Yn ei dro mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn atebol i Lywodraeth a Chynulliad Cymru.

Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo gweinyddiaeth o ddydd i ddydd ei gyfrifoldebau i gyflogeion y Tribiwnlys, ond mae'n parhau'n gyfrifol ac yn atebol yn bersonol amdanynt.



Andrew Shipsides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Atodiadau

A **Llwyth gwaith – cymariaethau 3 blynedd ac amcangyfrifon 2016-17**

B **Data Clirio Apeliadau 2015/2016**

C **Dadansoddiad oedran a rhyw yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2016)**

Ch **Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2015/2016**

D **Arbedion dros y ddwy flynedd ddiwethaf**

Llwyth gwaith – cymariaethau 3 blynedd ac amcangyfrifon 2016-17: Atodiad A-1

Mewnbynnau a chliriadau apêl y Tribiwnlys Prisio – dros y tair blynedd ddiwethaf

		Prisio Ardrethu Annomestig		Prisio'r Dreth Gyngor		Atebolrwydd y Dreth Gyngor, cosbau, eraill	
2013-14							
Mewnbwn	**Dygwyd ymlaen**	7540		534		26	
	Derbyniwyd	4822		1835		100	
Clirio	**Datryswyd gan y partïon**	6599	85%	1284	76%	15	19%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	1191	15%	403	24%	62	81%
2014-15							
Mewnbwn	**Dygwyd ymlaen**	4572		682		49	
	Derbyniwyd	4198		1700		97	
Clirio	**Datryswyd gan y partïon**	5232	85%	1398	77%	22	22%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	939	15%	416	23%	78	78%
2015-16							
Mewnbwn	**Dygwyd ymlaen**	2599		568		46	
	Derbyniwyd	8719		1796		104	
Clirio	**Datryswyd gan y partïon**	1719	89%	1552	83%	59	55%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	204	11%	312	17%	49	45%
	Cario trosodd	9395		500		42	

Nodyn:
Mae mwy na 95% o achosion a ddatryswyd gan y partïon yn cael eu rhestru gan y tribiwnlys ar gyfer dyddiad gwrandawiad. Mae'r weithred o bennu dyddiad gwrandawiad yn gweithredu fel catalydd i ysgogi datrysiad.

Amcangyfrifon mewnbynnau a chliriadau - 2016-17

		Prisio Ardrethu Annomestig		Prisio'r Dreth Gyngor		Atebolrwydd y Dreth Gyngor, cosbau, eraill	
2016-17							
Mewnbwn	**Dygwyd ymlaen**	9395		500		42	
	Derbyniwyd	6000		1700		100	
Clirio	**Datryswyd gan y partïon**	2150	86%	1300	76%	20	18%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	350	14%	400	24%	90	82%
	Cario trosodd	12895		500		32	

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Math o Apêl		Apeliadau Prisio'r Dreth Gyngor		Rhestr Ardrethu Annomestig 2005		Rhestr Ardrethu Annomestig 2010		Amrywiol (e.e. Atebolrwydd / Cosbau)*		Pob apêl	
	Rhanbarth		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**
Dygwyd ymlaen	Dwyrain	107		22		700		6		835	
	Gogledd	99		14		542		4		659	
	De	181		18		658		22		879	
	Gorllewin	181	568	39	93	606	2506	14	46	840	3213
Derbyniwyd	Dwyrain	394		0		1853		25		2272	
	Gogledd	582		0		2097		11		2690	
	De	358		0		2790		40		3188	
	Gorllewin	462	1796	0	0	1979	8719	28	104	2469	10619
Datryswyd	Dwyrain	355		14		441		5		815	
	Gogledd	529		4		380		2		915	
	De	258		5		443		37		743	
	Gorllewin	410	1552	2	25	430	1694	15	59	857	3330
Penderfyn-wyd	Dwyrain	57		2		55		14		128	
	Gogledd	38		0		41		6		85	
	De	139		2		43		14		198	
	Gorllewin	78	312	1	5	60	199	15	49	154	565
Caniatawyd	Dwyrain	10		1		2		1		14	
	Gogledd	2		0		2		1		5	
	De	5		2		6		1		14	
	Gorllewin	4	21	0	3	4	14	1	4	9	42
Cario trosodd	Dwyrain	89		6		2057		12		2164	
	Gogledd	114		10		2218		7		2349	
	De	142		11		2962		11		3126	
	Gorllewin	155	500	36	63	2095	9332	12	42	2298	9937

*** Dangosir manylion yr Apeliadau Amrywiol ar y dudalen nesaf**

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016
Dadansoddiad apeliadau Amrywiol

Math o Apêl		Atebolrwydd y Dreth Gyngor		Hysbysiad Cwblhau		Hysbysiad Cosb		Cais i adolygu penderfyniad		Lleihad y Dreth Gyngor		Y cyfan	
	Tribiwnlys		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**
Dygwyd ymlaen	Dwyrain	3		0		0		0		3		6	
	Gogledd	2		0		0		0		2		4	
	De	5		15		0		0		2		22	
	Gorllewin	6	16	0	15	0	0	0	0	8	15	14	46
Derbyniwyd	Dwyrain	4		1		0		1		19		25	
	Gogledd	4		3		0		0		4		11	
	De	8		17		1		3		11		40	
	Gorllewin	10	26	0	21	0	1	1	5	17	51	28	104
Datryswyd	Dwyrain	3		0		0		0		2		5	
	Gogledd	0		1		0		0		1		2	
	De	2		32		0		0		3		37	
	Gorllewin	3	8	0	33	0	0	0	0	12	18	15	59
Penderfynwyd*	Dwyrain	4		0		0		0		10		14	
	Gogledd	3		0		0		0		3		6	
	De	7		0		1		3		3		14	
	Gorllewin	11	25	0	0	0	1	0	3	4	20	15	49
***Caniatawyd**	Dwyrain	1		0		0		0		0		1	
	Gogledd	1		0		0		0		0		1	
	De	0		0		0		1		0		1	
	Gorllewin	1	3	0	0	0	0	0	1	0	0	1	4
Cario trosodd	Dwyrain	0		1		0		1		10		12	
	Gogledd	3		2		0		0		2		7	
	De	4		0		0		0		7		11	
	Gorllewin	2	9	0	3	0	0	1	2	9	28	12	42

Atodiad C

Dadansoddiad oedran a rhyw yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2016)

Oedran	Dan 30		30-39		40-49		50-59		60-69		70-79		Dros 80		Cyfanswm	
Rhyw	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B
Gogledd	0	0	0	0	0	0	2	3	9	3	16	6	5	0	32	12
Dwyrain	0	0	0	0	0	0	5	2	6	4	11	4	1	0	23	10
De	0	0	0	0	3	2	1	2	10	3	7	6	2	0	23	13
Gorllewin	0	0	1	0	1	0	4	2	16	2	12	1	3	1	37	6
Cyfanswm	0	0	1	0	4	2	12	9	41	12	46	17	11	1	115	41
Canran o gyfanswm yr aelodaeth	0%		0.6%		3.8%		13.5%		34.0%		40.4%		7.7%		73.7%	26.3%

Nodyn

1 Mae cyfanswm nifer yr aelodau sy'n aelodau cyngor awdurdod lleol yn 27 – lleihad o 10% ar y flwyddyn ddiwethaf, ac yn sylweddol is na'r cyfran uchafswm a ganiateir gan reoliadau statudol llywodraethu'r tribiwnlys (sy'n nodi uchafswm o draean o'r cyfanswm).

Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2015-2016 (£oedd)

Maes gwariant	Cronfeydd disgwyliedig	Gwir wariant	Cronfeydd sy'n weddill / wedi'u gorwario	Cyfartaledd gwariant blynyddol
Cyflogau	720000	696360	23640	96.7%
Pensiynau	152000	142809	9191	94.0%
Is-gyfanswm	**872000**	**839169**	32831	96.2%
Costau swyddfeydd	80000	86417	-6417	108.0%
Gwariant ar gyfriaduron	90000	129606	-39606	144.0%
Teithio a chynhaliaeth	55000	63271	-8271	115.0%
Cyflenwadau ac offer	24500	26570	-2070	108.4%
Cyfleustodau	8500	13353	-4853	157.1%
Costau cynnal eraill	26000	23393	2607	90.0%
Hyfforddiant	36000	36824	-824	102.3%
Y Cyngor Llywodraethu	30000	31184	-1184	103.9%
Is-gyfanswm	**350000**	**410618**	-60618	117.3%
Cyfanswm gwariant	**1222000**	**1249787**	-27787	102.3%

Atodiad D

Arbedion yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (dangosir canran yr arbedion mewn gwyrdd)

Maes gwariant	Gwariant 2015-16	Canran y cynnydd / lleihad o'i gymharu â 2014-15	Canran y cynnydd / lleihad o'i gymharu â 2013-14	Gwariant 2014-15	Canran y cynnydd / lleihad o'i gymharu â 2013-14	Gwariant 2013-14
Cyflogau	696360	0.3%	3.8%	693974	3.5%	670661
Pensiynau	142809	8.0%	1.2%	132234	-6.3%	141050
Is-gyfanswm	**839169**	1.6%	3.4%	**826208**	1.8%	**811711**
Costau swyddfeydd	86417	-15.9%	-6.4%	102766	11.3%	92291
Gwariant ar gyfriaduron	129606	-16.7%	-40.2%	155652	-28.2%	216674
Teithio a chynhaliaeth	63271	-14.7%	-35.0%	74210	-23.8%	97337
Cyflenwadau ac offer	26570	-29.4%	-3.9%	37616	36.0%	27658
Cyfleustodau	13353	24.5%	48.9%	10727	19.6%	8966
Costau cynnal eraill	23393	-29.4%	-34.7%	33121	-7.5%	35824
Hyfforddiant	36824	6.5%	-19.8%	34574	-24.7%	45909
Y Cyngor Llywodraethu	31184	1.5%	42.0%	30712	39.9%	21960
Is-gyfanswm	**410618**	-14.3%	-24.9%	**479378**	-12.3%	**546619**
Cyfanswm gwariant	**1249787**	-4.3%	-8.0%	**1305586**	-3.9%	**1358330**

Nodiadau

(1) Mae'r ffigurau Gwariant ar gyfrifiaduron ar gyfer 2013-14 a 2014-15 wedi'u haddasu, fel bo'r £56k am gost y rhwydwaith yn 2014-15 (a dalwyd ymlaen llaw yn 2013-14) wedi'i ddyrannu i'r flwyddyn gywir. Mae hyn yn gwneud cymharu ar draws blynyddoedd yn gadarnach (h.y. cymharu tebyg gyda'i debyg).

(2) Ehangwyd sgôp gwariant y Cyngor Llywodraethu yn 2014-15 i gynnwys costau teithio a chynhaliaeth yn gysylltiedig â gweithgareddau'r Cyngor Llywodraethu (yn cynnwys holl waith y pwyllgorau). Felly mae'r lleihad £20K+ dan y pennawd costau teithio a chynhaliaeth cyffredinol yn y flwyddyn honno yn cynnwys trosglwyddo costau teithio a chynhaliaeth y Cyngor Llywodraethu i faes gwariant y Cyngor Llywodraethu.

(3) Mae'r costau staffio wedi cynyddu bob blwyddyn oherwydd dyfarniad cyflog cenedlaethol 1% a weithredwyd bob blwyddyn, a nifer o staff yn parhau ar raddau cynnydd cynyddrannol a dyfarniad cymwysterau. Bach iawn yw'r trosiant staff o flwyddyn i flwyddyn. Felly mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys tueddiad ar i fyny yn gyffredinol (3.4% o'i gymharu â 2013-14).

(4) Gan fod y staffio yn sefydlog a gwariant ar hyn yn cynrychioli bron i ddau draean cyfanswm y gwariant, mae perthynas wedi'i gerio o 1:3 rhwng arbedion a'r holl wariant ac eithrio staffio. Dyma pam mae'r arbediad 8% dros ddwy flynedd wedi'i gyflawni trwy arbedion mwy na 24% ar wariant ac eithrio staffio.